# Cynnig y Gyllideb Atodol 2026-27

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan y Gweinidog Cabinet dros Gyllid*

*Mehefin 2026*

**Cynnig y Gyllideb Atodol**

**1. Gofynnir i'r Senedd gytuno ar y canlynol:**

- Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027 gan Senedd Cymru ("y Senedd") yn unol ag adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf").

2. Dylai'r Cynnig Atodol hwn ar gyfer y Gyllideb gael ei ddarllen ochr yn ochr â dogfennau'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 23 Mehefin 2026.

Llywodraeth Cymru

3. Awdurdodir Llywodraeth Cymru–

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027 ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o bob rhan o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o bob rhan o'r Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

4. Er gwaethaf paragraffau 3(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o bob rhan o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob rhan o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob Rhan o Atodlen 2)–

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronnus, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronnus.

5. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2027 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 ym mhob Rhan o'r Atodlen honno.

6. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronnus a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2027 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno.

7. Yn unol ag adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall cynnig cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan unrhyw gorff sy'n gorff dynodedig mewn perthynas â pherson perthnasol. Mae adnoddau'r cyrff sydd wedi'u dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 (fel y'i diwygiwyd) wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn ar gyfer y gyllideb atodol.

<u>Y Comisiwn Etholiadol</u>

8. Mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol, awdurdodir Llywodraeth Cymru–

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027 ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1A, hyd at uchafswm o'r symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Atodlen 1A;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, o fewn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 2A, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027, i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a bennir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno.

(c) i dynnu arian allan o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1A, hyd at y terfyn gofyniad arian parod net a bennir yn Atodlen 5.

<u>Comisiwn y Senedd</u>

9. Awdurdodir Comisiwn y Senedd–

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

10. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru–

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2027 ar y gwasanaethau a’r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2027, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a’r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o’r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o’r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i’w ddefnyddio ar y gwasanaethau a’r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Swyddfa Archwilio Cymru

11. Awdurdodir Swyddfa Archwilio Cymru–

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2027 ar y gwasanaethau a’r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2027, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a’r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o’r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o’r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i’w ddefnyddio ar y gwasanaethau a’r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronnus

12. Mae’r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau penodedig at ddibenion adran 120(2)(a) o’r Ddeddf.

## Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

### *Gweinidogion Cymru*

| Cwmpas | Adnoddau (£000) | Adnoddau Cronnus (£000) |
|---|---|---|
| Iechyd a Gofal | 13,761,768 | 151,548 |
| Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio | 7,151,480 | 64,512 |
| Addysg a'r Gymraeg | 4,028,241 | 784,728 |
| Menter, Cysylltedd ac Ynni | 2,140,604 | 72,561 |
| Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd | 912,465 | 124,760 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb | 525,776 | 1,073 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 207,430 | 12,211 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 431,698 | 7,550 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru (heb gynnwys y Comisiwn Etholiadol)** | **29,159,462** | **1,218,943** |
| Y Comisiwn Etholiadol | 3,609 | 0 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru** | **29,163,071** | **1,218,943** |

***Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol***

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | 102,672 | 85 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 6,820 | 4 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | 10,477 | 18,491 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **119,969** | **18,580** |

## Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

### Rhan 1 – Iechyd a Gofal

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (heb gynnwys adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Iechyd, Gofal ac Atal, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Darparu gwasanaethau GIG craidd a gwasanaethau GIG wedi'u targedu, gan gynnwys amhariadau a darpariaethau; cefnogi addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r GIG; hosbisau; noddi cyrff iechyd y cyhoedd, rhaglenni iechyd y cyhoedd; trefniadau effeithiol i baratoi ar gyfer argyfyngau iechyd; gofal a chymorth cymdeithasol, partneriaethau ac integreiddio, gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, Gofal Cymdeithasol Cymru; cyllid ar gyfer Cafcass; cyllid ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru; gwyddorau bywyd; Llais, sef corff llais y dinesydd; iechyd meddwl a grwpiau agored i niwed, camddefnyddio sylweddau ac unrhyw wariant cysylltiedig; Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru a chostau gweinyddol a chyfreithiol cysylltiedig, a defnydd o adnoddau'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME). | **13,761,768** |

## Rhan 2: Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (heb gynnwys adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyllid i gefnogi gweithgarwch ym maes tai i gynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai fforddiadwy a thai marchnad; cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi drwy'r Gronfa Cefnogi Pobl, Byw'n Annibynnol a Thai â Gofal; ac atal digartrefedd. Cyllid i sicrhau diogelwch cartrefi presennol, yn arbennig blociau fflatiau uchel iawn a gwella a chynnal a chadw tai cymdeithasol presennol, gan gynnwys lleihau eu hôl troed carbon. Cyllid i gefnogi cymunedau gan gynnwys Adfywio. Cyllid i gefnogi'r Rhaglen Cartrefi Cynnes. Cyllid i gefnogi Awdurdod Harbwr Caerdydd. Cyllid a gyfeirir at waith cynllunio a rheoleiddio; apeliadau cynllunio a'r gwasanaeth penderfyniadau amgylcheddol cysylltiedig yng Nghymru.<br><br>Cyllid i gefnogi llywodraeth leol, gan gynnwys cyllid refeniw craidd a chymorth ariannol brys; cyllid cyfalaf cyffredinol, cymorth cyfalaf ar gyfer datgarboneiddio ystadau llywodraeth leol, diwygio trethiant lleol a gwasanaethau prisio; meithrin democratiaeth leol; polisi etholiadau; cefnogi cydweithio, diwygio a gwella, gan gynnwys costau etholiadau. Cyllid ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub. Mae'r cyllid hefyd yn cynnwys unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.<br><br>Gwariant sy'n gysylltiedig â phrynu asedau tir a datblygu'r asedau hyn drwy Ystadau Cymru. | **7,151,480** |

## Rhan 3: Addysg a'r Gymraeg

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (heb gynnwys adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Addysg a'r Gymraeg, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Gwariant ar addysg a safonau, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, y cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth, cymwysterau, gan gynnwys Cymwysterau Cymru, addysg ôl-16 ac addysg uwch, gan gynnwys drwy Medr, Grant Addysg Awdurdodau Lleol cyn-16; ystad, darpariaeth TGCh a systemau rheoli gwybodaeth; ymgysylltu â phobl ifanc a chyfleoedd gwaith; llesiant plant a phobl ifanc; cymorth i ddysgwyr ôl-16; ymgysylltu â disgyblion; addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; y Gymraeg; Comisiynydd y Gymraeg, Estyn; prentisiaethau; darparu cymorth o ran sgiliau, gan gynnwys drwy Gyrfa Cymru; cymorth o ran y gwaith cyflawni; ac unrhyw wariant cysylltiedig. | **4,028,241** |

## Rhan 4: Menter, Cysylltedd ac Ynni

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (heb gynnwys adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Fenter, Cysylltedd ac Ynni, gan gynnwys hybu a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ar gyfer busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru a seilwaith digidol.<br><br>Gwariant ar sectorau a datblygu busnesau rhanbarthol a phrosiectau masnachol; gwybodaeth busnes ac entrepreneuriaeth; cymorth i fusnesau; allforio, masnach a mewnfuddsoddi; arloesi; gwyddoniaeth; darparu seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo; darparu cymorth i wella a hyrwyddo seilwaith digidol a chynhwysiant digidol; darparu seilwaith sy'n gysylltiedig â TGCh; datblygu a chyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni a seilwaith; ynni gwyrdd; rhaglenni corfforaethol a strategaeth; Banc Datblygu Cymru; Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd; Tasglu'r Cymoedd; twristiaeth a marchnata i hyrwyddo Cymru, gan gynnwys trwyddedu llety ymwelwyr; gwaith cyhoeddi ac ar y cyfryngau drwy Gyngor Llyfrau Cymru; darparu cymorth i gynyddu cyflogadwyedd drwy Cymunedau am Waith; datblygu a chyflawni polisi a rhaglenni trosfwaol sy'n ymwneud â'r Gronfa Twf Lleol, Parthau Buddsoddi, Porthladdoedd Rhydd a Morglawdd Caergybi.<br><br>Systemau trafnidiaeth gan gynnwys gweithrediadau traffyrdd a chefnffyrdd; gwella a chynnal a chadw'r rhwydwaith cefnffyrdd; gwasanaethau ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr a buddsoddi; y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd; cymorth bysiau a dulliau teithio cynaliadwy eraill; gwella diogelwch ar y ffyrdd; darparu a hwyluso seilwaith ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **2,140,604** |

## Rhan 5: Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (heb gynnwys adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyflawni polisïau a rhaglenni trosfwaol ar ddatblygu cynaliadwy ac adnoddau naturiol, rheoli'r amgylchedd, gan gynnwys costau ar gyfer corff llywodraethiant amgylcheddol newydd, datblygu morol a gweithredu polisi newid hinsawdd ac addasu i'r hinsawdd, twf gwyrdd, economi gylchol a chostau'r cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pecynnu, costau'r cynllun dychwelyd ernes, ansawdd aer a sŵn, diogelu'r amgylchedd, risg llifogydd a risg arfordirol, gan gynnwys cynnal a chadw Tomenni Glo, polisi a deddfwriaeth gorfodi dŵr a charthffosiaeth a chronfeydd dŵr; cynllun cymunedau gwarediadau tirlenwi; cyflawni polisïau cadwraeth natur a choedwigaeth; noddi a rheoli cyrff cyflawni; hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig a mynediad ehangach at fannau gwyrdd; mynediad at gefn gwlad, yr arfordir, hawliau tramwy a dyfrffyrdd / cronfeydd dŵr; ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Datblygu a chyflawni polisïau a rhaglenni trosfwaol ar amaethyddiaeth, bwyd, pysgodfeydd, a datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i gefnogi gwaith o ran gwydnwch yr amgylchedd a gwydnwch gwledig; diogelu iechyd a lles anifeiliaid a datblygu polisïau GM; gweinyddu a chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drwy grantiau a benthyciadau; cefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru drwy fuddsoddiadau cyffredinol, dewisol a chydweithredol; gwaith datblygu, monitro a modelu sy'n seiliedig ar dystiolaeth; datblygu a rheoli pysgodfeydd Cymru ac amaethu dŵr, gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru; datblygu a marchnata bwyd a diod Cymreig; diogelu a rheoli bywyd gwyllt, gan gynnwys rheoli plâu, chwyn niweidiol a fermin a rheoleiddio iechyd planhigion, hadau a phlaladdwyr; Rhaglen Dynodi Parc Cenedlaethol newydd ac unrhyw wariant cysylltiedig. | **912,465** |

## Rhan 6: Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (heb gynnwys adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar flaenoriaethau Cyfiawnder Cymdeithasol, gan gynnwys cefnogi cymunedau, gwella neu gefnogi llesiant cymdeithasol; diogelwch cymunedol; gwella amrywiaeth democratiaeth leol; mynd i'r afael â thlodi, cefnogi plant a theuluoedd a chymorth o ran costau byw.<br><br>Cyllid i gefnogi cymunedau, gan gynnwys atal trais; cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol; gwariant ar blant a theuluoedd; gwasanaethau cynghori; y sector gwirfoddol; diogelwch cymunedol; y Comisiynydd Pobl Hŷn; y Comisiynydd Plant; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; cymorth cymunedol a diogelwch; cynhwysiant ariannol; cyflawni cyfiawnder troseddol; partneriaeth gymdeithasol, tlodi tanwydd; cyllideb Cymru ac Affrica drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar Ddatblygu Cynaliadwy Rhyngwladol; lluoedd arfog; sefydlu a chynnal safleoedd Sipsiwn/Teithwyr, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **525,776** |

## Rhan 7: Diwylliant a Chwaraeon

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (heb gynnwys adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Ddiwylliant a Chwaraeon.<br><br>Gwariant ar Ddigwyddiadau Cymru i hyrwyddo Cymru; cefnogi diwylliant a'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru; cefnogi diwylliant lleol a chwaraeon; y cyfryngau; cefnogi'r amgylchedd hanesyddol a naturiol drwy Cadw, y Gerddi Botaneg Cenedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru; hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy Chwaraeon Cymru ac eraill. | **207,430** |

## Rhan 8: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (heb gynnwys adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu; gwydnwch ac argyfyngau sifil posibl; cyfrifoldebau cyllidol; gwasanaethau caffael; cysylltiadau rhyngwladol; Academi Wales; cyrff a gwasanaethau allanol; gwasanaethau cymorth eraill; Gwybodaeth ac Ymchwil Ystadegol a Diwygio a Chyfiawnder.<br><br>Gwariant ar gostau rhedeg Llywodraeth Cymru (gan gynnwys costau staff; gweinyddu cyffredinol; rheoli asedau; cyfalaf a thaliadau cyfalaf; costau TG a Digidol; gwella busnes; a darpariaethau ar gyfer ymddeoliad cynnar a phensiynau); gwybodaeth ystadegol ac ymchwil; cyfrifoldebau cyllidol (gan gynnwys benthyca a threthiant datganoledig); gwasanaethau caffael; gwydnwch ac argyfyngau sifil posibl; cyllido cyrff a gwasanaethau allanol (Tribiwnlysoedd a'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus); digwyddiadau a chyfathrebu corfforaethol; Ymchwiliadau (gan gynnwys cymryd rhan yn Ymchwiliad COVID-19 y DU gyfan); Penodiadau Cyhoeddus a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; Academi Wales; diwygio a gwasanaethau cyfiawnder (gan gynnwys diwygio cyfansoddiadol, trawsnewid cyfiawnder, diwygio'r Senedd a seilwaith ffiniau); hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol; cyllid ar gyfer ystod o weithgarwch caffael masnachol, gan gynnwys pennu'r cyfeiriad polisi strategol ar gyfer caffael yng Nghymru; datblygu sgiliau capasiti a galluogrwydd yn y sector cyhoeddus yn ehangach; diwygio caffael; cyflawni rhaglen o drefniadau cydweithredol cenedlaethol; cefnogi ystod o ddulliau sbarduno Llywodraeth Cymru o ran deddfwriaeth a pholisi; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **431,698** |

## Atodlen 1A – Cwmpas ar gyfer gwariant Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol

| **Cwmpasau ar gyfer gwariant Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol (heb gynnwys adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Y Comisiwn Etholiadol**<br><br>I'w ddefnyddio gan y Comisiwn Etholiadol ar wariant sy'n codi mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru; gweithgarwch rheoleiddio cysylltiedig gan gynnwys gwneud codau ymarfer; adolygu a chynghori ar weinyddu a chyfraith etholiadau ac annog arferion gorau; darparu canllawiau ar gynnal etholiadau a refferenda ac adrodd arnynt; pennu safonau perfformiad ar gyfer y rhai sy'n gweinyddu cofrestru etholiadol, etholiadau a refferenda, a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r safonau hynny ac â gwariant ar etholiadau ac ymgyrchu; cynnal refferenda penodol a hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol. | **3,609** |

## Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronnus gan Weinidogion Cymru

### Rhan 1: Iechyd a Gofal

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf (VPAG); incwm mewn perthynas â setlo hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm gan Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, adrannau llywodraethol eraill a'r Undeb Ewropeaidd; cynlluniau creu incwm; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo, ac adennill TAW; incwm o gynlluniau a chytundebau ad-dalu; ffioedd a thaliadau am arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; incwm o'r Comisiwn Gamblo mewn perthynas â'r ardoll gamblo. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cymorth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **151,548** |

**Rhan 2: Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant, gan gynnwys incwm o ad-daliadau'r Grant Tai Cymdeithasol a chynlluniau grant a buddsoddiadau eraill, incwm o is-gyrff a chynlluniau benthyciadau; incwm o werthu asedau tir; ac adennill TAW; gwasanaethau rheoleiddio; incwm o secondiadau staff; ad-dalu benthyciadau, gan gynnwys benthyciadau staff; cyfran elw contract Nyth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil, codi ffioedd hwyluso ac incwm sy'n gysylltiedig â chynllunio. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau'r Tribiwnlys Prisio; talu grantiau i awdurdodau lleol, ad-dalu benthyciadau a chefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **64,512** |

**Rhan 3: Addysg a'r Gymraeg**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o waith ymchwil a gwerthuso; breindaliadau cwricwlwm; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o'r Gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau o arolygiadau. Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant; ffioedd a thaliadau am arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o werthu asedau cyfalaf; adennill benthyciadau a wnaethpwyd ac unrhyw daliadau llog arnynt; adenillion a grantiau ad hoc o ffynonellau eraill. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, datblygu rhaglenni, gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; i gefnogi gwariant cyfredol ar addysg a chefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **784,728** |

## Rhan 4: Menter, Cysylltedd ac Ynni

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus a chyllid a ddaw naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r Comisiwn Ewropeaidd; derbyniadau astudiaethau trafnidiaeth; gwerthiannau eiddo, incwm rhentu ac incwm cysylltiedig arall; taliadau gwasanaethau busnes; incwm sy'n ymwneud â gweithgarwch ym maes gwyddoniaeth; cyfraniadau prosiectau a digwyddiadau gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm buddsoddi; ad-daliadau grantiau a chyllid busnes ad-daladwy, gan gynnwys llog cysylltiedig; incwm o werthu asedau cyfalaf; incwm gweithredol ar gyfer Banc Datblygu Cymru a Thrafnidiaeth Cymru; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; arian o adrannau llywodraeth ganolog eraill; ac adennill TAW. | Cefnogi'r holl wariant fel y'i nodwyd yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **72,561** |

## Rhan 5: Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o dderbyniadau Buddsoddi i Arbed a llog benthyciadau; incwm o Fferm Pwllpeiran; incwm o drwyddedau morol; incwm o adennill grantiau gan awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; dirwyon cosb sifil sy'n gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau ac erlyniadau bwyd ac allforion bwyd; incwm o achub carcasau anifeiliaid sydd wedi'u lladd er mwyn rheoli clefydau; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; arian o adrannau llywodraeth ganolog eraill, gan gynnwys adennill costau a rennir â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Y Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt a derbyniadau'r cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pecynnu. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â thaliadau grant; ad-dalu benthyciadau; incwm o ffermydd gwynt; adennill costau a rennir â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, erlyniadau bwyd, derbyniadau carcasau, trwyddedau morol; dirwyon cosb sifil a dirwyon statudol; cynlluniau a gefnogir yn rhannol gan adrannau llywodraethol eraill ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant gan gynnwys derbyniadau'r cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **124,760** |

**Rhan 6: Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, gweinyddu cyffredinol a chostau a gwariant ar adnoddau Comisiynwyr; cefnogi gwariant ar gymunedau mwy diogel a thalu grantiau i awdurdodau lleol; ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **1,073** |

## Rhan 7: Diwylliant a Chwaraeon

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus a chyllid a ddaw naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o gyfraniadau prosiectau a digwyddiadau gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm buddsoddi; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy gan gynnwys llog cysylltiedig; taliadau mynediad ac incwm gweithredol arall ar gyfer Cadw; gan gynnwys rhoddion; Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a chyrff noddedig; Amgueddfa Genedlaethol Cymru; Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru; adennill TAW a threthi eraill. | Cefnogi'r holl wariant fel y'i nodwyd yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **12,211** |

## Rhan 8: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o weithgarwch gweinyddol megis gwerthu nwyddau neu wasanaethau: gwerthu tir neu adeiladau; adennill costau; secondiadau staff a ffioedd; ad-dalu benthyciadau staff; adennill taliadau grant; ad-dalu didyniadau Talu Wrth Ennill statudol; adennill treth gan gynnwys TAW; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarperir; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill costau a rennir â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus; incwm o fframweithiau cyfleustodau; derbyniadau grantiau y gellir eu hadennill. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu costau rhedeg a gwariant gweinyddol cyffredinol; cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth Cymru; a chefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **7,550** |

## Atodlen 2A – Defnydd o adnoddau cronnus gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus sy'n codi mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru: cofrestru ac ailgofrestru pleidiau gwleidyddol; darparu canllawiau ar gynnal etholiadau a refferenda ac adrodd arnynt; pennu safonau perfformiad ar gyfer y rhai sy'n gweinyddu cofrestru etholiadol, etholiadau a refferenda, a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r safonau hynny a gwariant ar etholiadau ac ymgyrchu; cynnal refferenda penodol a hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol; ac unrhyw eitemau eraill nad ydynt yn arian parod. | Cefnogi'r holl wariant fel y'i nodwyd yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **0** |

## Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronnus)

### Rhan 1 – Comisiwn y Senedd

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Senedd i gefnogi Senedd Cymru ('y Senedd'); hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu swyddogaethau Comisiwn y Senedd. Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol a gwariant yn ymwneud â darpariaeth pensiynau Aelodau'r Senedd. | **102,672** |

### Rhan 2 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu swyddfa'r Ombwdsmon; taliadau i gymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon; taliadau i'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol; ac eitemau anghyllidol cysylltiedig. | **6,820** |

### Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | **10,477** |

## Atodlen 4 – Defnydd o adnoddau cronnus gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

### Rhan 1 – Comisiwn y Senedd

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd drwy waredu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall; incwm rhenti; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog ac i'w defnyddio i dalu costau gweinyddol y Senedd. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **85** |

### Rhan 2 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu gwasanaeth yr Ombwdsmon. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **4** |

## Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; grantiau a dderbynnir i ariannu gwasanaethau archwilio; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; amryfal incwm o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; adennill costau, er enghraifft staff wedi'u secondio, benthyciadau i staff, taliadau lesio ceir; adennill unrhyw gostau yr eir iddynt ar ran trydydd parti; a llog a dderbynnir ar falansau gwaith. | I'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig â gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **18,491** |

## Atodlen 5: Cysoni Adnoddau ag Arian Parod – 2026-27 (£000)

### *Tabl 1: Cysoni Adnoddau ag arian parod ar gyfer 2026-27 a gynhwysir yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol Ionawr 2026 (£000)*

| | Gweinidogion Cymru | Y Comisiwn Etholiadol | *Gweinidogion Cymru (Cyfanswm)* | Comisiwn y Senedd | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | **26,108,605** | **3,609** | ***26,112,214*** | **96,511** | **6,815** | **10,297** |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | **2,621,050** | **0** | ***2,621,050*** | **6,161** | **5** | **180** |
| Addasiadau: | | | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -612,456 | 0 | *-612,456* | -5,627 | -159 | -411 |
| Amhariadau | -833,973 | 0 | *-833,973* | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -228,676 | 0 | *-228,676* | -400 | 0 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 150,000 | 0 | *150,000* | 2,330 | 126 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **27,204,550** | **3,609** | ***27,208,159*** | **98,975** | **6,787** | **10,066** |

### *Tabl 2: Newidiadau i Gysoni Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yng Nghynnig Atodol y Gyllideb hon (£000)*

| | Gweinidogion Cymru | Y Comisiwn Etholiadol | *Gweinidogion Cymru (Cyfanswm)* | Comisiwn y Senedd | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | **363,524** | **0** | ***363,524*** | **0** | **0** | **0** |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | **66,283** | **0** | ***66,283*** | **0** | **0** | **0** |
| Addasiadau: | | | | | | |
| Taliadau cyfalaf | 9,357 | 0 | *9,357* | 0 | 0 | 0 |
| Amhariadau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 232,000 | 0 | *232,000* | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **671,164** | **0** | ***671,164*** | **0** | **0** | **0** |

## *Tabl 3: Cysoni Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yng Nghynnig y Gyllideb Atodol hon (£000)*

| | Gweinidogion Cymru | Y Comisiwn Etholiadol | *Gweinidogion Cymru (Cyfanswm)* | Comisiwn y Senedd | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | **26,472,129** | **3,609** | ***26,475,738*** | **96,511** | **6,815** | **10,297** |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | **2,687,333** | **0** | ***2,687,333*** | **6,161** | **5** | **180** |
| Addasiadau: | | | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -603,099 | 0 | *-603,099* | -5,627 | -159 | -411 |
| Amhariadau | -833,973 | 0 | *-833,973* | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -228,676 | 0 | *-228,676* | -400 | 0 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 382,000 | 0 | *382,000* | 2,330 | 126 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **27,875,714** | **3,609** | ***27,879,323*** | **98,975** | **6,787** | **10,066** |

**Nodiadau:**

1. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio ag adran 125(1)(c) a 126(2) o'r Ddeddf. Mae'r adran hon yn pennu bod rhaid, er mwyn awdurdodi'r cynnig, gael datganiad sy'n awdurdodi'r swm y caniateir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol i'r personau perthnasol, neu i'w ddefnyddio yn unol â deddfiad perthnasol, at y dibenion a bennir. Gwneir y taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru mewn arian parod, felly mae'r tabl hwn yn dangos y gofynion perthnasol o ran arian parod i gefnogi'r adnoddau y gofynnir amdanynt i gefnogi Atodlenni 1 i 4, sy'n rhestru'r dibenion perthnasol y gellir defnyddio adnoddau ar eu cyfer.

2. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn hefyd yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.28(v), sy'n pennu bod rhaid i gynnig y gyllideb gynnwys cysoniad o'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf â'r symiau sydd i'w hawdurdodi i'w talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(c) o'r Ddeddf.

## Atodlen 6: Cysoni adnoddau y gofynnir amdanynt yng nghynnig y gyllideb â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Bloc Cymru 2026-27

### *Tabl 1: Cysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol Ionawr 2026 â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)*

| | 2026-27 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 25,850,438 | 1,245,076 | 258,167 | 1,375,974 | 28,729,655 |
| - Y Comisiwn Etholiadol | 3,609 | 0 | 0 | 0 | 3,609 |
| - Comisiwn y Senedd | 96,111 | 6,161 | 400 | 0 | 102,672 |
| - Ombwdsmon | 6,815 | 5 | 0 | 0 | 6,820 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 10,297 | 180 | 0 | 0 | 10,477 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol** | **25,967,270** | **1,251,422** | **258,567** | **1,375,974** | **28,853,233** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 17,173 | 0 | 64,700 | -732 | 81,141 |
| (ii) Grantiau | -2,276,874 | 2,276,874 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 25,173 | 0 | 1,101,000 | 0 | 1,126,173 |
| (v) Arall | 20,107 | 0 | 0 | 0 | 20,107 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir Gweinidogion Cymru a Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **23,752,849** | **3,617,096** | **1,424,267** | **1,375,242** | **30,169,454** |
| - Swyddfa Cymru | 7,379 | 30 | 0 | 0 | 7,409 |
| - Benthyca | 0 | -165,000 | 0 | 165,000 | 0 |
| - Trethi Datganoledig | -4,224,709 | 0 | 4,224,709 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 379,514 | 121,091 | 0 | 0 | 500,605 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **19,915,033** | **3,573,217** | **5,648,976** | **1,540,242** | **30,677,468** |

## *Tabl 2: Newidiadau i Gysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol Ionawr 2026 â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)*

| | 2026-27 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | -511,868 | 66,283 | 875,392 | 0 | 429,807 |
| - Y Comisiwn Etholiadol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Comisiwn y Senedd | -5,627 | 0 | 5,627 | 0 | 0 |
| - Ombwdsmon | -159 | 0 | 159 | 0 | 0 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | -411 | 0 | 411 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **-518,065** | **66,283** | **881,589** | **0** | **429,807** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -17,003 | 0 | 17,003 | 0 | 0 |
| (ii) Grantiau | -117,979 | 117,979 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| (v) Arall | 3,308 | 0 | 0 | 0 | 3,308 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir Gweinidogion Cymru a Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **-649,736** | **184,262** | **898,592** | **0** | **433,118** |
| - Swyddfa Cymru | -642 | 0 | 370 | 0 | -272 |
| - Benthyca | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Trethi Datganoledig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | -133,011 | -117,971 | 423,549 | 42,449 | 215,016 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **-783,389** | **66,291** | **1,322,511** | **42,449** | **647,862** |

## *Tabl 3: Cysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yn y Gyllideb Atodol hon*

| | 2026-27 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 25,338,570 | 1,311,359 | 1,133,559 | 1,375,974 | 29,159,462 |
| - Y Comisiwn Etholiadol | 3,609 | 0 | 0 | 0 | 3,609 |
| - Comisiwn y Senedd | 90,484 | 6,161 | 6,027 | 0 | 102,672 |
| - Ombwdsmon | 6,656 | 5 | 159 | 0 | 6,820 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 9,886 | 180 | 411 | 0 | 10,477 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **25,449,205** | **1,317,705** | **1,140,156** | **1,375,974** | **29,283,040** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 170 | 0 | 81,703 | -732 | 81,141 |
| (ii) Grantiau | -2,394,853 | 2,394,853 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 25,176 | 0 | 1,101,000 | 0 | 1,126,176 |
| (v) Arall | 23,415 | 0 | 0 | 0 | 23,415 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir Gweinidogion Cymru a Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **23,103,113** | **3,801,358** | **2,322,859** | **1,375,242** | **30,602,572** |
| - Swyddfa Cymru | 6,737 | 30 | 370 | 0 | 7,137 |
| - Benthyca | 0 | -165,000 | 0 | 165,000 | 0 |
| - Trethi Datganoledig | -4,224,709 | 0 | 4,224,709 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 246,503 | 3,120 | 423,549 | 42,449 | 715,621 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **19,131,644** | **3,639,508** | **6,971,487** | **1,582,691** | **31,325,330** |

**Nodiadau:**

1. Mae cyfanswm gofyniad Llywodraeth Cymru am adnoddau yn gyfwerth â chyfanswm y dyraniadau a gynhwyswyd yn y Cwmpasau yn Atodlen 1.

2. Mae Rheol Sefydlog 20.28(ii) yn nodi y dylai cynnig y gyllideb flynyddol gynnwys yr adnoddau y mae'r Trysorlys yn cytuno arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

3. Mae Rheol Sefydlog 20.28(iii) yn nodi bod rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys â'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi i'w defnyddio yng nghynnig y gyllideb. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

4. Mae'r atodlenni uchod yn dangos amrywiadau a awdurdodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan adran 126 o'r Ddeddf a Rheol Sefydlog 20.31.

5. Dyma'r taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru:

| **Eitem** | **2026-27<br>£000** |
|---|---|
| Taliadau i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol – Llog [Nodyn] | 24,310 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 325 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Ombwdsmon | 238 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Archwilydd Cyffredinol | 239 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru | 29 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Comisiynydd Safonau | 35 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol y gellir eu hailddosbarthu | 1,101,000 |
| **Cyfanswm** | **1,126,176** |

Nodyn:

Amcangyfrifir bod £14,898,000 yn ychwanegol i'w godi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â'r prif ad-daliad i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol ar fenthyciad. Mae'r taliad hwn y tu allan i Gyfanswm y Gwariant a Reolir.

## Atodlen 7: Cysoni'r llif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru â'r arian parod y gofynnir amdano yng nghynnig y gyllideb (£000)

| | Darpariaeth Flaenorol 2026-27 | Newidiadau | Darpariaeth ddiwygiedig 2026-27 |
|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif o'r symiau net i'w talu i Weinidogion Cymru:** | | | |
| Grant i'w dalu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 118(1) | 21,167,411 | 782,112 | 21,949,523 |
| Talu Cyfradd Treth Incwm Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru | 3,976,926 | 0 | 3,976,926 |
| Arian wedi'i fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol a chan fanciau masnachol o dan adran 121 | 165,000 | 0 | 165,000 |
| Taliadau gan Adrannau Llywodraeth eraill | 1,715,158 | 54,711 | 1,769,869 |
| Taliadau o ffynonellau eraill | 2,830,862 | -30,143 | 2,800,719 |
| Llai y symiau a awdurdodwyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru a Chyrff a Gyllidir yn Uniongyrchol | -1,229,031 | -8,492 | -1,237,523 |
| **Amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru** | **28,626,326** | **798,188** | **29,424,514** |
| Dosbarthwyd fel a ganlyn: | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 27,204,550 | 671,164 | 27,875,714 |
| - Y Comisiwn Etholiadol | 3,609 | 0 | 3,609 |
| - Comisiwn y Senedd | 98,975 | 0 | 98,975 |
| - Ombwdsmon | 6,787 | 0 | 6,787 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 10,066 | 0 | 10,066 |
| **Arian a ryddheir o Gronfa Gyfunol Cymru yn y Cynnig** | **27,323,987** | **671,164** | **27,995,151** |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 1,141,071 | 3 | 1,141,074 |
| Cronfeydd heb eu clustnodi | 161,268 | 127,021 | 288,289 |
| **Amcangyfrif o Gyfanswm y Taliadau** | **28,626,326** | **798,188** | **29,424,514** |

**Nodiadau:**

1. Mae adran 125(3) o'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gael ei ategu gan ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion, yn dangos:

    i. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan adran 118(1);

ii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan Weinidogion y Goron ac adrannau'r llywodraeth; a

iii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol heblaw gan Weinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth.

2. Mae'r atodlen uchod yn dangos amrywiadau yn y symiau hyn fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.31.

**Mehefin 2026**